

**CRONFA GYMUNEDOL Y LOTERI GENEDLAETHOL - POLISI I DDEILIAID GRANT  
DIOGELU AC AMDDIFFYN PLANT AC OEDOLION DAN RISG RYDYM YN EU CEFNOGI**

### **Datganiad Polisi**

Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn cefnogi pobl a chymunedau i ffynnu.

Mae gan bob plentyn ac oedolyn dan risg hawl i gael eu gwarchod a chael rhyddid rhag camdriniaeth neu gamfanteisio, waeth beth fo'u hoedran, anabledd, rhyw, treftadaeth neu ddiwylliant hiliol, cred grefyddol, tueddfryd rhywiol, statws economaidd neu fel arall.

### **I bwy mae'r polisi hwn yn berthnasol**

Mae'r polisi hwn yn nodi safbwynt a chanllaw y Gronfa ar ddiogelu ac amddiffyn plant ac oedolion dan risg. Mae'n berthnasol i'n holl ddeiliaid grant ledled y DU a thramor, a bydd yn ofynnol i'n hymgeiswyr grant yn ogystal â'n deiliaid grant.

Mae ein telerau ac amodau grant yn ei gwneud yn glir, trwy lofnodi cytundeb grant, bod deiliaid grant yn cytuno i'r gofynion deiliaid grant a nodir yn y polisi hwn.

Mae'r polisi hwn yn ymwneud ag unrhyw bryderon neu ddigwyddiadau o gam-drin sy'n codi o ganlyniad i dorri rhwymedigaethau diogelu ac amddiffyn deiliaid grant fel y nodir yn y ddogfen hon.

### **Beth mae'r polisi hwn yn ei gynnwys**

**Mae'r polisi'n esbonio:**

1. Ystyr y termau a ddefnyddir yn y polisi hwn
2. Yr hyn yr ydym yn ei ofyn gan bob deiliaid grant o ran diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion sydd dan risg
3. Disgwyliadau ychwanegol ar y deiliaid grant sy'n gweithio'n uniongyrchol â phlant ac oedolion dan risg
4. Yr hyn y dylai eich polisi a'ch gweithdrefnau diogelu ac amddiffyn ei gynnwys, fel isafswm
5. Y bydd y Gronfa'n gweithio gyda chi i gynnal ffocws ar eich dull o ddiogelu ac amddiffyn plant ac oedolion sydd dan risg
6. Pryd y dylech roi gwybod i'r Gronfa am bryder neu broblem, yr amserlen ar gyfer adrodd pryder neu ddatgeliad a allai fod yn ddifrifol a sut y byddwn yn delio ag unrhyw adroddiad a wnewch i'r Gronfa.
7. Dolenni i ganllawiau allanol ar bolisiâu a gweithdrefnau diogelu ac amddiffyn

### **1. Ystyr y termau a ddefnyddir yn y polisi hwn**

**Camdriniaeth:** Gall gynnwys niwed corfforol, rhywiol neu emosiynol, esgeulustod neu driniaeth esgeulus, camdriniaeth, radicaleiddio neu gamfanteisio. Gall camdriniaeth ddigwydd wyneb i wyneb neu ar-lein, gan unrhyw berson (a allai gynnwys plant ac oedolion eraill dan risg neu gan bobl mewn safleoedd o ymddiriedaeth).

**Plant ac oedolion dan risg:** Plant a phobl ifanc (sy'n golygu pobl dan 18 oed) ac oedolion a allai fod yn agored i niwed oherwydd, er enghraifft, eu hoedran, iechyd meddwl, anabledd, salwch, rhyw, hil, crefydd neu gred,

cyfeiriadedd rhywiol, statws economaidd neu efallai na fyddant yn gallu gofalu amdanynt eu hunain rhag camdriniaeth.

**Diogelu:** camau rhagweithiol a gymerwyd i atal camdriniaeth yn erbyn plant ac oedolion sydd dan risg, gan gynnwys y camau y mae'r mudiad yn eu cymryd i hyrwyddo lles pobl gan gynnwys plant ac oedolion sydd dan risg i'w diogelu rhag niwed.

**Gwarchod:** ymateb i bryderon a/neu ddatgeliadau y gall plentyn neu oedolyn dan risg fod yn profi, neu fod mewn perygl o gael eu cam-drin.

**Pobl yn y Gronfa:** ein gweithwyr parhaol a chyfnod penodol, aelodau'r Bwrdd anweithredol a phwyllgorau, staff asiantaeth, interniaid, gwirfoddolwyr, ymgynghorwyr ac unrhyw un arall sy'n gweithio i'r Gronfa neu ar ei rhan.

**Deiliaid grant:** unrhyw fudiad neu grŵp sy'n derbyn arian grant o'r Gronfa.

**Swyddog/Rheolwr Ariannu:** Y person yn y Gronfa, sef y prif gyswllt gyda'r deiliad grant.

**Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG):** gwasanaeth a ddarparwyd yn Lloegr i helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel i bobl sy'n gweithio mewn gweithgareddau rheoledig ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda Phlant ac Oedolion dan risg. Mae gwasanaethau cyfatebol yn y gweinyddiaethau datganoledig o fewn y DU, gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i Disclosure Scotland, Access NI a'r Cynllun Diogelu Grwpiau Agored i Niwed (PVG) neu wiriadau heddlu cyfatebol dramor. Mae'r gwasanaethau hyn yn prosesu ceisiadau am wiriadau cofnodion troseddol ac yn penderfynu a yw'n briodol i berson gael ei rhoi neu eu tynnu oddi ar restr o bobl sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda Phlant ac Oedolion sydd dan risg.

## **2. Yr hyn sydd ei angen arnom gan ddeiliaid grant o ran diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion sydd dan risg**

Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i bob deiliad grant:

1. Feddu ar eu polisi wedi'i deilwra eu hunain ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion dan risg sy'n gymesur ac yn berthnasol i weithgareddau eu mudiad ac y cytunwyd arno gan eu hymddiriedolwyr neu gorff llywodraethu arall. Rhaid adolygu'r polisi hwn yn rheolaidd a rhaid hyfforddi staff ac ymddiriedolwyr ar ei gynnwys
2. Sicrhau bod gan bob is-ddeiliaid grant a thrydydd parti a benodir ganddynt i berfformio unrhyw ran o'r gweithgaredd grant lle mae gweithio gyda phlant ac oedolion dan risg eu polisiâu a'u gweithdrefnau diogelu ac amddiffyn priodol eu hunain;
3. Cydnabod, pan fyddant yn llofnodi Cytundeb Grant gyda'r Gronfa, fod hyn yn cynnwys cytuno i gyflawni disgwyliadau deiliaid grant a nodir yn y polisi hwn;
4. Cydweithio â'u Swyddog/Rheolwr Ariannu lle mae pryderon neu ddatgeliadau a allai fod yn ddifrifol ynghylch diogelu neu amddiffyn unrhyw blentyn neu oedolyn sydd dan risg; a
5. Chymryd dull synnwyr cyffredin o ddiogelu ac amddiffyn plant ac oedolion sydd dan risg.

Cyhoeddodd Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr ei strategaeth diogelu newydd ym mis Rhagfyr 2017 sy'n nodi y dylai diogelu fod yn flaenoriaeth lywodraethu allweddol i bob elusen, waeth beth fo'u maint, math neu incwm, ac nid dim ond y rhai sy'n gweithio gyda phlant neu grwpiau a ystyrir yn draddodiadol dan risg. Ymhellach,

cyhoeddodd Rheoleiddiwr Elusennau yr Alban hefyd ganllawiau diogelu ym mis Mai 2018 sy'n tynnu sylw at y camau allweddol y gall ymddiriedolwyr elusennau eu cymryd i sicrhau eu bod yn cael eu diogelu'n iawn.

Mae'n ddyletswydd hanfodol i ymddiriedolwyr neu gorff llywodraethu arall gymryd camau rhesymol i ddiogelu buddiolwyr a'u hamddiffyn rhag camdriniaeth. Rydym felly yn disgwyl bod gan bob deiliad grant bolisi a gweithdrefnau diogelu, sy'n gymesur â'i weithgareddau.

Er mwyn helpu i alluogi diwylliant diogel ac amddiffynnol yn eich mudiad, rydych chi (y deiliad grant) yn ymrwymo i:

- Flaenoriaethu diogelwch a lles yr holl blant ac oedolion dan risg sy'n dod i gysylltiad â'ch mudiad (gan gynnwys cyswllt â'ch canolfannau, prosiectau, staff a/neu wirfoddolwyr)
- Sicrhewch fod plant ac oedolion dan risg yn cael llais trwy greu amgylchedd a darparu cyfleoedd i blant ac oedolion sydd dan risg ddweud wrthyh beth rydych chi'n ei wneud yn dda, pa risgiau sydd iddyn nhw a sut y gallwch chi helpu i'w cadw nhw ac eraill yn ddiogel.
- Amlinellwch yn glir i'r holl bobl yn eich mudiad (gweithwyr parhaol a thymor penodol, aelodau pwyllgor anweithredol, staff asiantaeth, interniaid, gwirfoddolwyr, contractwyr ac ymgynghorwyr) eich polisiau a'ch prosesau gorfodol a chod ymddygiad sy'n cadw plant ac oedolion dan risg yn ddiogel.
- Bod â gweithdrefn gyfoes wedi'i theilwra ar gyfer adrodd pryderon a datgeliadau y mae pawb yn gwybod amdanyh nhw, ac yn teimlo'n hyderus wrth eu defnyddio (gan gynnwys nid yn unig y bobl yn eich mudiad ond hefyd ofalwyr neu warcheidwaid y plant a'r oedolion dan risg sy'n dod i gysylltiad gyda'ch mudiad a, lle bo hynny'n briodol, y plant a'r oedolion dan risgl eu hunain).

### **3. Disgwyliadau ychwanegol ar y deiliaid grant hynny sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant ac oedolion dan risg**

**Os yw'ch prosiect a ariennir yn cynnwys gweithio mewn gweithgaredd rheoledig gyda phlant ac oedolion dan risg, byddwch hefyd yn ystyried:**

- Cael un neu fwy o aelodau staff enwebedig (Arweinydd Diogelu Dynodedig) sydd â'r wybodaeth a'r sgiliau i hyrwyddo amgylcheddau diogel i blant ac oedolion dan risg ac sy'n gallu ymateb i bryderon a datgeliadau.
- Sicrhau bod pawb yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau diogelu ac yn cael cyfleoedd dysgu priodol i gydnabod, nodi ac ymateb i bryderon a datgeliadau sy'n ymwneud ag amddiffyn plant ac oedolion sydd dan risg.
- Defnyddio prosesau recriwtio diogel a thryloyw gan gynnwys (1) gwiriad Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd/PVG manwl gywir ar gyfer staff sy'n dod i gysylltiad â phlant ac oedolion dan risg (2) cael tystlythyrau sy'n cadarnhau nad yw'r canolwyr yn ymwybodol o unrhyw reswm pam na ddylai'r ymgeisydd weithio gyda phlant ac oedolion dan risg (3) Yr hyfforddiant diogelu cymesur diweddaraf ar gyfer pobl yn eich mudiad.
- Cynnal asesiadau risg diogelu a darparu arweiniad i'ch mudiad, lleoliadau, prosiectau a phrosesau i alluogi amgylchedd diogel, cynhwysol i'r holl blant ac oedolion dan risg yr ydym yn eu cefnogi. Gallai hyn gynnwys arweiniad ar fynd â phlant ac oedolion dan risg ar deithiau, y caniatâd sy'n ofynnol, cymhareb oedolion i

blant ac oedolion dan risg, gweithdrefnau diogelwch trafndiaeth ac argyfwng, a chanllawiau ar blant ac oedolion dan risg sydd angen meddyginiaeth ac ystyriaeth y Ddyletswydd Atal <sup>1</sup>.

#### **4. Yr hyn y dylai eich polisi a'ch gweithdrefnau diogelu ac amddiffyn ei gynnwys, fel isafswm:**

- Datganiad yn amlinellu ymrwymiad eich mudiad i ddiogelu ac amddiffyn plant ac oedolion sydd dan risg
- Meysydd risg diogelu ac amddiffyn penodol ar gyfer eich mudiad a sut rydych chi'n mynd i'r afael â nhw
- Pwy sy'n gyfrifol am ddiogelu ac amddiffyn
- Sut i adrodd pryderon a datgeliadau
- Beth sy'n digwydd os nad yw rhywun yn cynnal eich polisi neu weithdrefnau
- Sut i warchod chwythwyr chwiban neu eraill sy'n codi pryder am eich mudiad
- Pa mor aml bydd y polisi a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu a diweddarau
- Dolenni i'ch polisiâu a gweithdrefnau perthnasol.

#### **Fel rhan o'ch polisi, bydd gennych god ymddygiad i bobl yn eich mudiad sy'n cynnwys:**

- Eich disgwyliadau o'u rhyngweithio ag unrhyw blant neu oedolion sydd dan risg a gefnogir gan eich mudiad
- Eich disgwyliadau o ran unrhyw gyswllt ar-lein â phlant ac oedolion dan risg, gan gynnwys ar wefannau cyfryngau cymdeithasol fel Facebook, gan gynnwys arfer gorau
- Rhoi gwybod am yr holl bryderon a datgeliadau (gan gynnwys unrhyw bryder neu ddatgeliad hanesyddol nas adroddwyd)
- Hyrwyddo diogelwch a lles plant ac oedolion dan risg trwy'r amser.

#### **Tryloywder**

Dylai eich polisi a'ch gweithdrefnau fod ar gael i'r cyhoedd a'u hyrwyddo'n rhagweithiol i roi sicrwydd a galluogi'r plant a'r oedolion dan risg rydych chi'n eu cefnogi a/neu eu gofalgwyr/gwarcheidwaid, fel sy'n briodol, i roi adborth adeiladol a rhoi gwybod i staff am unrhyw bryderon neu ddigwyddiadau.

#### **5. Y bydd y Gronfa'n gweithio gyda chi i gynnal ffocws ar eich dull rhagweithiol o ddiogelu ac amddiffyn plant ac oedolion sydd dan risg**

Cyn i chi ddod yn ddeiliad grant, byddwn yn gofyn i chi am ddiogelu ac amddiffyn plant ac oedolion dan risg. Byddwn yn gofyn ichi roi gwybod am unrhyw bryderon fel rhan o'n proses rheoli grantiau. Ar ôl ichi ddod yn ddeiliad grant, byddwn yn cadw ffocws ar eich dull rhagweithiol, lle bo hynny'n briodol, ar ddiogelu ac amddiffyn plant ac oedolion dan risg fel rhan o'n proses monitro grantiau.

#### **6. Pryd y dylech adrodd pryder neu problem i'r Gronfa**

---

<sup>1</sup>Y Ddyletswydd Atal yw'r ddyletswydd yn Neddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 ar awdurdodau penodol, wrth arfer eu swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i atal pobl rhag cael eu tynnu i derfysgaeth.

- Os rhoddir gwybod i chi am bryder neu ddatgeliad ynghylch cam-drin, dylech ymchwilio iddo a mynd i'r afael ag ef fel arall yn unol â'ch polisi diogelu ac amddiffyn eich hun. Dylech hefyd wneud hyn yn unol ag unrhyw ofynion gan eich rheolydd a'r gyfraith fel y mae'n berthnasol i'ch mudiad.
- Yn ogystal, dylech hysbysu eich Swyddog/Rheolwr Ariannu cyn gynted â phosibl a dim hwyrach nag o fewn tri diwrnod gwaith o unrhyw bryder neu ddatgeliad a allai fod yn ddifrifol, fel ein bod yn ymwybodol o'r sefyllfa ac rydym yn cadw'r hawl i ofyn am wybodaeth bellach os ydym o'r farn ei fod yn briodol.
- Os byddwch yn tynnu sylw at bryder diogelu neu amddiffyn gyda ni, byddwn yn parchu eich anhysbysrwydd, os gofynnir am hynny. Os ydych chi'n darparu gwybodaeth i ni sy'n awgrymu y gallai rhywun fod mewn perygl, efallai y bydd angen i ni rannu'r wybodaeth hon gyda'r heddlu neu awdurdodau priodol eraill. Yn yr achos hwn byddem yn dal i gymryd camau i warchod eich cyfrinachedd.
- Os oes gennym achos da i gredu nad ydych wedi cydymffurfio â'ch rhwymedigaethau o dan y canllaw hwn, gallwn atal neu derfynu'ch grant.

## 7. Dolenni i arweiniad allanol ar bolisiau a gweithdrefnau diogelu ac amddiffyn

### Lle gallwch gael arweiniad ar bolisiau a gweithdrefnau diogelu ac amddiffyn

Nid oes gan bobl yn y Gronfa yr arbenigedd i'ch cynghori ar eich bolisiau a'ch gweithdrefnau diogelu ac amddiffyn gan fod yn rhaid i'r rhain gael eu teilwra i gyd-fynd â gweithgareddau eich mudiad eich hun.

Os oes angen cymorth arnoch, rydym yn argymhell eich bod yn adolygu'r canllawiau i fudiadau, cynhyrchwyd gan:

- Yr Adran Addysg: <https://www.gov.uk/government/publications/working-together-to-safeguard-children--2>
- GIG Lloegr: <https://www.england.nhs.uk/wp-content/uploads/2017/02/adult-pocket-guide.pdf>
- GIG Cymru; <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/safeguarding>
- NSPCC: <https://learning.nspcc.org.uk/safeguarding-child-protection/>
- Arweiniad ar ddiogelu oedolion dan risg gan Social Care Institute for Excellence: <https://www.scie.org.uk/safeguarding/adults>
- Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr: <https://www.gov.uk/guidance/safeguarding-duties-for-charity-trustees> a <https://www.gov.uk/government/publications/strategy-for-dealing-with-safeguarding-issues-in-charities>
- Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban: [https://www.oscr.org.uk/media/3164/v10-interim-safeguarding-guidance\\_pdf.pdf](https://www.oscr.org.uk/media/3164/v10-interim-safeguarding-guidance_pdf.pdf)
- Comisiwn Elusennau Gogledd Iwerddon: <https://www.charitycommissionni.org.uk/start-up-a-charity/things-to-consider-before-starting-a-charity/working-with-children-and-vulnerable-adults/>
- Gwiriadau datgelu i Ogledd Iwerddon: <https://www.nidirect.gov.uk/information-and-services/accessni-criminal-record-checks/apply-accessni-check>
- Gwiriadau datgelu i'r Alban:

- Gwiriadau datgelu i Loegr, Cymru, Ynysoedd y Sianel, ac Ynys Manaw:  
<https://www.gov.uk/government/organisations/disclosure-and-barring-service/about>
- Adnoddau Diogelu Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol;  
<https://knowhow.ncvo.org.uk/safeguarding/>

18 Mehefin 2019